St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

POLISI DIOGELU

Fframwaith i alluogi i fyfyrwyr wneud cynnydd a chyflawni mewn amgylchedd dysgu cefnogol a diogel

Awdur y Diweddariad	Mike Horgan
Diweddariad y Polisi	Hydref 2022
Asesiad o Effaith	Hydref 2022
Statws	Yn fyw
Cymeradwywyd gan	Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chorff Llywodraethu
Dyddiad cymeradwyo	Hydref 2022
Dyddiad adolygu	26 Gorffennaf 2024
Dyddiad dechrau	Hydref 2022

1.0: Cyflwyniad

Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn pobl ifanc ac oedolion rhag cam-drin neu esgeulustod ac addysgu'r bobl o'u cwmpas sut i nodi arwyddion a pheryglon. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cyflwyno ymagwedd partneriaeth gadarn, effeithiol wedi'i hatgyfnerthu at ddiogelu. Un o egwyddorion pwysicaf y Ddeddf hon yw mai cyfrifoldeb pawb yw diogelu. Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol a sefydliad wneud popeth y gallant i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n destun risg yn cael eu hamddiffyn rhag cam-drin.

At hynny, mae ymagwedd Gristnogol at ddiogelu pobl ifanc yn gofyn i unigolion a chymunedau greu amgylchedd diogel iddynt, gan weithredu'n gyflym mewn perthynas ag unrhyw gwynion a wneir, i ofalu am y rhai sydd wedi bod yn destun cam-drin ynghyd â hyrwyddo lles pawb.

2.0 Cyd-destun

Coleg Catholig i'r gymuned yw Dewi Sant, sy'n ceisio darganfod a gwireddu llawn botensial pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist.

Mae diogelu ein pobl ifanc wrth wraidd yr Ethos Catholig.

Caiff hyn ei gyflawni mewn amryw o ffyrdd:

- **Gweithio aml-asiantaeth:**

Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, yr Heddlu a'r Sectorau Gwirfoddol ac Annibynnol i herio a mynd i'r afael â cham-drin a hyrwyddo hawliau pobl agored i niwed a phobl ifanc. Gall cam-drin fod yn ddigwyddiad untro neu'n gyfres o ddigwyddiadau. Efallai y bydd yn digwydd mewn cartref unigolyn neu mewn canolfannau dydd neu breswyl, clinigau, ysbytai neu yn y Coleg ei hun. Cyfrifoldeb pawb yw chwarae rôl mewn diogelu plant, oedolion ifanc ac oedolion diamddiffyn. Mae'r Coleg wedi datblygu'r polisi hwn er mwyn iddo allu chwarae ei rôl mewn lleihau cam-drin.

Mae polisi Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru yn dweud: "Mae datblygu a gweithredu polisi ac arferion proffesiynol effeithiol ar gyfer ymateb i gam-drin oedolion sy'n agored i niwed yn gofyn am ymagwedd aml-asiantaeth, wedi'i chydlynu'n lleol gan adran gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol a chan gynnwys gwasanaethau craidd iechyd a'r Heddlu ar y cyd â'r asiantaethau hynny â'r dasg o ofalu am ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed."

Mae'r Coleg yn cydnabod ei ran yn yr ymagwedd aml-asiantaeth hon a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i'r preswyl hwn.

- **Rôl y Coleg**

Mae'r Coleg yn ystyried ei rôl a'i gyfrifoldebau i amddiffyn a diogelu lles a diddordebau'r holl bobl ifanc dan ei ofal i fod yn bwysig iawn. Mae ei rôl yn amddiffyn pobl ifanc rhag camfanteisio yn flaenoriaeth hanfodol o'i genhadaeth fel Coleg Catholig. Mae ymdrin â diogelwch ac amddiffyniad pobl ifanc yn faes gwaith beichus ac anodd. Caiff yr anawsterau a'r galwadau hyn eu cydbwyso gyda chanlyniadau boddhaus pan fydd staff yn gweithio ar y cyd i gefnogi ac amddiffyn pobl ifanc yn llwyddiannus. Mae'r Coleg yn cydnabod y ffactorau hyn a'i nod yw sicrhau y darperir hyfforddiant, arweiniad a chyfeiriad priodol i staff yn y maes sensitif ond hanfodol hwn. Rydym ni'n cydnabod bod

amgylchedd gwaith a Choleg diogel yn hanfodol i les yr holl fyfyrwyr ac mae Siarter y Coleg yn hollbwysig er mwyn galluogi hyn, gan hyrwyddo tri disgwyliad o ran ymddygiad: **Byddwch yn barod; Byddwch yn barchus; Byddwch yn ddiogel.**

2.1 Gweithdrefnau tryloyw sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd

Mae tystiolaeth glir bod angen gweithdrefnau clir a chadarn, cydweithio rhwng-asiantaeth da a chydlyniant er mwyn cynnig diogelu effeithiol, ac mae hyn yn gofyn i'r bobl hynny sy'n gweithio yn y maes i fod yn gymwys ac yn hyderus wrth gydnabod sefyllfaoedd diogelu ac ymateb iddynt. Byddwn ni hefyd yn cydweithio gyda'r Archesgobaeth Gatholig i ddatblygu'r broses hon ymhellach. Wrth lunio'r polisi hwn, bydd y Coleg yn tynnu ar brofiad, gweithdrefnau ac arferion gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau addysgol, cymdeithasol ac iechyd ac awdurdod lleol a lleoliadau cysylltiedig eraill. Mae'r Coleg yn cyfeirio at y gweithwyr proffesiynol hyn yn rheolaidd. Yn ogystal, mae'r polisi hwn wedi'i lywio gan arfer da hysbys ar sail genedlaethol a'i nod yw gweithredu'n unol â pholisïau, protocolau a gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu Plant.

2.2 Cyfrifoldeb bugeiliol a hyrwyddo pobl ifanc wrth gyflawni eu potensial

Yn ogystal â'r ddyletswydd statudol hon, mae cyfrifoldeb bugeiliol ar ran y Coleg, sy'n cydnabod pob gan yr holl bobl ifanc mae angen iddynt ddefnyddio ei wasanaethau hawl sylfaenol i gael eu hamddiffyn rhag niwed. Lluniwyd y polisi hwn i ategu ein cyfrifoldebau a'i nod yw sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc ac ar ei rhan yn ymwybodol o'r angen i weithredu mewn ffordd gyson i wella llesiant a diogelwch pobl ifanc.

2.3 Rolau dynodedig

Mae gan y Coleg 1 Rheolwr Diogelu, a 2 Gwnselydd rhan-amser, yn ogystal â Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Ddiogelu. Mae ganddo hefyd aelod o'r uwch-dîm rheoli sy'n Berson Diogelu Dynodedig a Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig.

3.0 <u>Gweithredu'n unol â dyletswyddau statudol</u>

Bydd y Coleg hefyd yn gweithredu'n unol â dyletswyddau statudol ac yn dilyn polisïau/rheoliadau Adran Addysg Llywodraeth Cymru wrth gyflawni dyletswyddau'r coleg a chyrff cysylltiedig eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

3.1 Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Dogfen ganllaw rhif 283/2022. Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2022

3.2 Diogelu Plant mewn Addysg: ymdrin â chyhuddiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill Canllaw i awdurdodau lleol, penaethiaid, staff yr ysgol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol. Cylchlythyr Canllaw Llywodraeth Cymru rhif: 009/2014 Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2014

3.3 Deddf Plant 1989 Adran 175 Deddf Addysg 2022 (awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau a gynhelir yn y sector addysg uwch), Adran 157 Deddf Addysg 2002 a Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol Cymru 2003 Deddf Plant 2004 Adran 28 Deddf Plant 2004 (asiantaethau eraill) Adrannau 141F, 141G a 141H Deddf Addysg 2002.

3.4 Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (“Gweithio gyda’n Gilydd”) a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sy’n cynnig canllawiau ac yn llywio arferion amddiffyn plant i Fyrddau Diogelu Plant Lleol yng Nghymru a’u partneriaid statudol.

- Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008
- Gweithdrefnau Cyhuddiadau o Gam-drin Proffesiynol (AWCPP Rhan IV) Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â chyhuddiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill: Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014.
- Adran 59 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (18+)
- Diogelu Plant mewn Addysg: rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2008
- Darperir Strategaeth Ddiogelu’r coleg yn Atodiad 3.
- Mae cyfrifoldebau PREVENT y Coleg yn unol â Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 hefyd yn rhan hollbwysig o’r Polisi Diogelu. Mae’r Llywodraeth wedi cyhoeddi ‘Canllawiau Dyletswydd Prevent: Canllawiau i awdurdodau penodol yng Nghymru a Lloegr ar ddyletswydd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i ystyried yr angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth’. Mae gofyniad i awdurdodau penodol, sy’n cynnwys Colegau Addysg Bellach, Prifysgolion, Ysgolion a Byrddau Iechyd, gydymffurfio’n gyfreithiol.

Mae Strategaeth PREVENT:

• yn ymateb i’r her ideolegol rydym ni’n ei hwynebu gan derfysgaeth ac agweddau ar eithafiaeth, a’r bygythiad rydym ni’n ei wynebu gan y bobl hynny sy’n hyrwyddo'r farn hon

• yn cynnig help ymarferol i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth a sicrhau y rhoddir cyngor a chymorth priodol iddynt

• yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sectorau (gan gynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, ar-lein ac iechyd) lle mae risgiau o radicaleiddio y mae angen i ni ymdrin â nhw.

Mae’r strategaeth yn cynnwys holl ffurfiau terfysgaeth, gan gynnwys eithafiaeth yr asgell dde eithafol a rhai agweddau ar eithafiaeth nad yw’n dreisgar.

Mae deddfwriaeth berthnasol eraill y bydd y Coleg yn cydymffurfio â hi’n cynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae polisïau mewnol eraill sy’n cefnogi egwyddorion ac arfer diogelu yn cynnwys:

- Polisi Urddas Myfyrwyr
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi E-ddiogelwch
- Polisi Cydraddoldeb

- Polisi Cwnsela
- Polisi Ysgoloriaeth
- Polisi Prevent

4.0 Yr egwyddorion y tu ôl i'r polisi

Oedolion ifanc

Mae pob oedolyn ifanc yn haeddu'r cyfle i gyflawni eu potensial llawn. Dylent allu:

- bod mor iach yn gorfforol ac yn feddyliol â phosib
- cael y budd mwyaf posib o gyfleoedd addysg o safon
- byw mewn amgylchedd diogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed
- profi lles emosiynol
- teimlo bod pobl yn eu caru ac yn eu gwerthfawrogi a chael cymorth gan rwydwaith o berthnasoedd dibynadwy a chariadus
- bod yn gymwys wrth ofalu am eu hunain ac ymdopi â bywyd bob dydd
- meddu ar ddelwedd bersonol gadarnhaol a chael ymdeimlad o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol
- datblygu sgiliau rhyngbersonol da a bod yn hyderus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc:

- drin llesiant pobl ifanc fel mater o'r pwysigrwydd pennaf
- bod yn effro i ddangosyddion posib o gam-drin ac esgeuluso
- bod yn effro i'r risgiau y gall camdrinwyr unigol, neu gamdrinwyr posib, eu peri i bobl ifanc
- bod yn wybodol o effeithiau cam-drin ac esgeuluso ar bobl ifanc
- cyfrannu fel y bo angen i bob cam o'r broses ddiogelu.

Oedolion ifanc a phobl a allai fod yn agored i niwed

Mae gan yr holl oedolion ifanc a allai fod yn agored i niwed hefyd yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin a chefnogi pobl sy'n chwilio am driniaeth ac iawn os byddant wedi cael eu cam-drin.

Felly, wrth gefnogi'r egwyddorion hynny, mae'r polisi hwn yn cefnogi ymagwedd amlgyfeiriad at ddiogelu:

I. Atal (amgylchedd Coleg cadarnhaol, addysgu gofalus a gwyliadwrus, gofal bugeiliol, cymorth i fyfyrwyr, darparu modelau rôl da o oedolion), cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio ac eithafiaeth);

II. Amddiffyn (dilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, gan sicrhau bod staff yn gymwys ac yn cael eu cefnogi i ymateb yn briodol ac mewn ffordd sensitif i bryderon Swyddog Diogelu); a

III. Chymorth (i staff y Coleg a phlant a phobl ifanc a allai fod wedi profi cam-drin)

5.0 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan yr holl oedolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc neu ar eu rhan gyfrifoldeb i amddiffyn y bobl ifanc hynny. Yn wir, mae gan yr holl unigolion yng nghymuned Dewi Sant ddyletswydd i adrodd am unrhyw arwyddion o bryder ar unwaith.

Yn y Coleg, mae gan yr unigolion canlynol gyfrifoldebau arbennig:

Y Person Diogelu Dynodedig yw Mike Horgan (rhif ffôn: 02920431842) sy'n cael ei gefnogi gan Ddirprwy Berson Diogelu Dynodedig, Jamie Beynon (rhif ffôn: 02920431853).

Rôl y Person Diogelu Dynodedig (a'r Dirprwy) yw:

- Diweddaru'r Pennaeth yn llawn mewn perthynas ag unrhyw bryderon Diogelu a allai godi
- Gweithio gyda Llywodraethwr y Coleg â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu
- Adrodd wrth y Llywodraethwyr yn rheolaidd am faterion Diogelu
- Gweithio gyda Swyddog Diogelu'r Archesgobaeth â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu yn Archesgobaeth Caerdydd
- Sicrhau bod Llywodraethwr y Coleg â chyfrifoldeb arbennig dros Ddiogelu yn derbyn yr hyfforddiant priodol mewn perthynas â Diogelu
- Ymdrin â chwynion yn erbyn oedolion sy'n gweithio yn y Coleg
- Sicrhau bod y Coleg yn gweithredu arferion recriwtio diogel

Y Rheolwr Diogelu a Lles yw Sarah-Jane Bailey (rhif ffôn: 02920431856)

Rôl y Rheolwr Diogelu a Lles yw cydlynu gwaith sy'n gysylltiedig â Diogelu. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymdrin ag adroddiadau am gam-drin yn erbyn plant a phobl ifanc
- Gwneud atgyfeiriadau at asiantau Diogelu os yw'n briodol
- Sicrhau bod yr holl oedolion sy'n gweithio yn y Coleg yn derbyn hyfforddiant mewn Diogelu sylfaenol
- Sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael eu cynefino'n briodol mewn perthynas â Diogelu
- Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y diweddaraf mewn perthynas â'r materion ac arferion diogelu diweddaraf neu sy'n dod i'r amlwg
- Gweithio gyda'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth i sicrhau y caiff strategaethau atal eu gwreiddio yn y rhaglen fugeiliol y mae'r holl fyfyrwyr yn ei dilyn.

Deiliad y rôl o Lywodraethwr Coleg â chyfrifoldeb arbennig am Ddiogelu yw'r Parchedig Nicholas Williams, a'i rôl ef yw:

- Gweithio gyda'r Rheolwr Diogelu ar faterion sy'n gysylltiedig â'r polisi Diogelu.

Mae Cylch Gorchwyl Tîm Diogelu'r Coleg yn cynnwys:

1. Cydlynu materion diogelu
2. Mireinio a chymeradwyo polisïau a gweithdrefnau
3. Adolygu llwyddiant gweithredol polisïau a gweithdrefnau
4. Creu fforwm lle gellir codi pryderon difrifol a, lle bo'n ofynnol, llunio a gweithredu unrhyw achosion cynsail
5. Cyfrannu at agenda PREVENT
6. Galluogi dosbarthu, lle bo'n briodol, gan aelodau o'r grŵp i'w meysydd gweithredol nhw

5.1 Hyfforddiant

Mae Coleg Catholig Dewi Sant hefyd yn sicrhau bod y PDD, y dirprwy DPP, y Rheolwr Diogelu, Swyddogion Diogelu, Llywodraethwr gyda chyfrifoldeb arbennig am Ddiogelu a Thiwtoriaid Bugeiliol yn derbyn hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Mae'r Coleg hefyd yn sicrhau bod yr holl staff yn cael eu diweddaru am faterion Diogelu drwy raglen HMS i staff a sesiynau briffio staff rheolaidd.

5.2 Cofnodion a monitro

Mae cofnodion sy'n cael eu cadw'n dda yn hanfodol i arfer diogelu da. Mae'r Rheolwr Diogelu yn gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrinachol o'r holl bryderon sy'n cael eu codi am blentyn, gan gynnwys y camau sydd wedi cael eu cymryd. Caiff gwybodaeth ei rhannu gydag asiantau eraill fel y bo angen i sicrhau amddiffyniad plant. Caiff copïau o adroddiadau, asesiadau risg, nodiadau ac ati eu huwchlwytho i **MyConcern** a chaiff unrhyw gopïau papur eu cadw'n ddiogel dan glo bob amser. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, dylid cadw'r ffeil nes y bydd y plentyn yn 25 oed. Caiff materion a phryderon diogelu eu nodi hefyd mewn ffordd syml ac unffurf ar Staff Advantage i hysbysu staff y dylid gofyn am wybodaeth ar sail yr angen i wybod.

Gall tystiolaeth o gam-drin plant ddod i'r amlwg mewn sawl ffordd a thros gyfnod o amser a gall gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag amheuaeth neu gyhuddiad o gam-drin ddod o lawer o ffynonellau, gan gynnwys dysgwr, rhiant, staff neu eraill. Felly, mae cofnodion clir yn hanfodol.

Yn ogystal, caiff adrodd a dadansoddi rheolaidd ei gwblhau a'i adrodd mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr ac mewn cyfarfodydd Arweinwyr Uwch.

Mae'r Fframwaith Gweithdrefnau Diogelu cyfatebol yn cynnwys profforma y dylid ei ddefnyddio wrth gofnodi unrhyw ddigwyddiadau diogelu.

5.3 Presenoldeb mewn cynadleddau achosion

Bydd y Rheolwr Diogelu yn cynrychioli'r Coleg ac yn cynnig gwybodaeth sy'n berthnasol i gynadleddau achos, lle bo'n briodol.

5.4 Cefnogi plant mewn risg

Mae'r Coleg yn cydnabod y gallai plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin ei chael hi'n anodd datblygu ymdeimlad o hunan-barch a gweld y byd mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n bosib mai'r Coleg fydd yr unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau'r plant a'r bobl ifanc dan ei ofal. Efallai y bydd gan blant a phobl ifanc ymddygiad heriol a herfeiddiol a bydd y Coleg yn gwneud cofnod o gyd-destun ymddygiad o'r fath.

Bydd rhai plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin yn troi at gam-drin eraill. Mae hyn yn gofyn am ymagwedd ystyriol a sensitif er mwyn i'r plentyn allu derbyn help a chymorth priodol.

Plant a phobl ifanc ag anawsterau ymddygiad ac anableddau sydd fwyaf agored i gam-drin. Bydd angen i staff y Coleg sy'n gweithio mewn unrhyw rinwedd â phlant a phobl ifanc ac anableddau difrifol a lluosog, nam synhwyraidd a/neu broblemau emosiynol ac ymddygiad fod yn arbennig o sensitif i arwyddion cam-drin.

Mewn amgylchedd cartref lle mae trais domestig, cam-drin cyffuriau neu alcohol, efallai y bydd plant a phobl ifanc hefyd yn agored i niwed ac angen cymorth ac amddiffyniad.

Mae'r Coleg yn cydnabod diamddiffynedd emosiynol plant a phobl ifanc a allai fod yn gwneud rôl gofalwr, ac mae'n ymwybodol o'r angen i roi cymorth i "ofalwyr ifanc" o'r fath.

Wrth lunio'r ddogfen Gweithdrefnau Diogelu Dewi Sant gyfatebol, byddwn hefyd yn cydymffurfio ag egwyddorion diwygiedig **Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo staff ysgol Cylchlythyr Llywodraeth 002/2020 (Chwefror).**

6.0 <u>Dogfennau a Gweithdrefnau Canllaw</u>

Dylid darllen y datganiad polisi hwn ochr yn ochr â'n polisïau, canllawiau a dogfennau cysylltiedig eraill yn ogystal â'n **Fframwaith Gweithdrefnau Diogelu** sy'n mynd i'r afael â'r sefyllfaoedd canlynol:

- ymdrin â datgeliadau a phryderon am blentyn neu berson ifanc
- rheoli cyhuddiadau yn erbyn staff a gwirfoddolwyr
- cofnodi pryderon a rhannu gwybodaeth
- dargadw a storio cofnodion amddiffyn plant
- côd ymddygiad i staff a gwirfoddolwyr
- codau ymddygiad i blant a phobl ifanc
- canllawiau ffotograffiaeth a rhannu lluniau
- ymarfer recriwtio diogelach
- diogelwch ar-lein
- cam-drin cymar i gymar
- camau gweithredu yn dilyn adroddiad am drais rhywiol a/neu aflonyddu rhywiol
- diogelu a chefnogi dioddefwr yn dilyn adroddiad o drais neu aflonyddu rhywiol
- diogelu a chefnogi'r cyflawnwr honedig sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol
- cam-drin ar sail anrhydedd: priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)
- polisi addasrwydd i astudio

- radicaleiddio ac eithafiaeth a dyletswydd PREVENT
- ymyrryd corfforol a defnyddio grym rhesymol
- Cymorth Cyntaf a rheoli cyflyrau meddygol
- rheoli cwynion a chwythu'r chwiban
- iechyd a diogelwch
- cynefino, hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth
- diogelu myfyrwyr yn ystod cyfnod estynedig o gau'r coleg
- plant a phobl ifanc sy'n colli addysg
- pobl ifanc sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc
- diogelwch safle a chontractwyr
- derbyniad i'r ysbyty
- atgyfeirio at gwnselwyr y coleg

7 Atodiad 1 – Diffiniadau

Lluniwyd y polisi hwn gan gyfeirio at fentrau, canllawiau a diffiniadau canlynol y Llywodraeth:

Diogelu plant
Er nad oes diffiniad statudol o ddiogelu, mae 'Diogelu Plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn amlinellu bod diogelu a hyrwyddo llesiant plant yn ymwneud â/ag:

- amddiffyn plant rhag cam-drin ac esgeuluso;
- atal nam i'w hiechyd neu'u datblygiad; a
- sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol;

... er mwyn eu galluogi nhw i gael y cyfleoedd bywyd gorau.

Diogelu oedolion sy'n agored i niwed
Mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed, eto, does dim diffiniad statudol. Er nad yw 'Mewn dwylo diogel: rhoi gweithdrefnau amddiffyn oedolion ar waith yng Nghymru' yn cynnwys diffiniad o ddiogelu oedolion diamddiffyn, mae'n diffinio cysyniadau 'oedolion sy'n agored i niwed' a 'niwed sylweddol' ar wahân (gweler isod am y diffiniadau hyn).
Yn y bôn, mae gan yr holl oedolion sy'n agored i niwed yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin ac esgeuluso, yr hawl i dderbyn gofal priodol a chael cymorth wrth chwilio am help os byddant yn cael eu cam-drin.

Beth yw plentyn?
Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' yn esbonio plentyn fel unrhyw un nad yw wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed eto. Felly, mae 'plant' yn meddwl 'plant a phobl ifanc' drwy'r holl ddogfen honno. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn 16 oed ac yn byw'n annibynnol neu mewn Addysg Bellach, neu'n aelod o'r Lluoedd Arfog, neu yn yr ysbyty, neu yn y carchar neu mewn sefydliad i droseddwyr ifanc yn newid eu statws na'u hawl i dderbyn gwasanaethau neu amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989.

O dan Adran 175 Deddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn y sector a gynhelir sicrhau eu bod nhw'n diogelu ac yn hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn estyn i gyrff llywodraethu sefydliadau, er enghraifft yn y sector addysg bellach.

Beth yw oedolyn sy'n agored i niwed?
Amlinellir y diffiniad o 'Oedolyn sy'n Agored i Niwed' yn adran 59 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel unigolyn sy'n 18 oed ac:

a. mewn llety preswyl,
b. mewn tai gwarchod,
c. yn derbyn gofal cartref,
d. yn derbyn unrhyw fath o ofal iechyd,
e. dan warchodaeth gyfreithiol,
f. yn rhinwedd gorchymyn llys, dan oruchwyliaeth person sy'n cyflawni swyddogaethau at ddiben Rhan 1 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau'r Llys 2000 (c. 43).
g. yn derbyn gwasanaeth llesiant o ddisgrifiad a ragnodwyd,
h. yn derbyn gwasanaethau neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd a ddarparwyd yn benodol i unigolion sy'n dod dan is-adran (9),
i. gwneir taliadau iddo (neu i rywun arall ar ei ran) yn unol â threfniadau o dan adran 57 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (c. 15), neu
j. mae angen cymorth wrth drafod ei fusnes ei hun..."

Beth yw risgiau diogelu i blant?
Mae'r diffiniadau canlynol yn dod o bennod chwech 'Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004' (Llywodraeth Cynlluniad Cymru 2007):

Esgeuluso
Esgeuluso plentyn yn gyson neu mewn ffordd ddifrifol, neu fethiant i amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerni, newyn neu fethiant eithafol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, gan arwain at niwed sylweddol i iechyd neu ddatblygiad plentyn, gan gynnwys methu ffynnu nad yw'n organig.

Cam-drin corfforol
Bwrw, siglo, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed i blentyn mewn rhyw ffordd arall. Gellir hefyd achosi niwed corfforol pan fydd rhiant neu ofalwr yn dyfeisio neu'n achosi salwch mewn plentyn mae'n gofalu amdano.

Cam-drin emosiynol
Cam-drin plentyn yn gyson mewn ffordd emosiynol sy'n achosi effeithiau andwyol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol a datblygiadol plentyn.

Cam-drin rhywiol
Gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai fod y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys:

- cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol ac nad ydynt yn dreiddiol;
- gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu greu, deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog plant i ymddwyn mewn ffordd sy'n amhriodol yn rhywiol.

Niwed Sylweddol
Mae Adran 31 (10) Deddf Plant 1989 yn dweud: 'lle caiff y cwestiwn ynghylch a yw plentyn yn dioddef niwed yn seiliedig ar iechyd neu ddatblygiad plentyn, ei iechyd neu ddatblygiad ei gymharu â'r hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan blentyn tebyg'.

Cam-drin seicolegol
Gan gynnwys bygythiadau o niwed neu adael, bychanu, cam-drin llafar neu hiliol, ynysu neu dynnu gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogi'n ôl

Cam-drin ariannol neu ddiriaethol
Gan gynnwys dwyn, twyll, pwysau mewn perthynas ag ewyllysion, eiddo neu etifeddiaeth, camddefnyddio neu gamgyfeirio budd-daliadau

Cam-drin â sail hiliol
Gallai hyn gymryd unrhyw un o'r ffurfiau ac mae angen ei nodi yn ychwanegol mewn sefyllfaoedd lle mae dioddefwr yn amgyffred bwriad hiliol i'r cam-drin.
Bydd rhai achosion o gam-drin yn drosedd. Yn hynny o beth, mae gan blant, oedolion ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yr hawl i gael eu hamddiffyn gan y gyfraith. O ganlyniad, pan fydd cwynion am gam-drin honedig yn awgrymu y gallai fod drosedd wedi'i chyflawni, mae'n hollbwysig y dylid cyfeirio'r mater at yr Heddlu ar frys. Mae ymchwiliad troseddol gan yr Heddlu yn cymryd blaenoriaeth dros yr holl linellau ymholi eraill.

8 Atodiad 2 – Llenyddiaeth Allweddol

- Côd Ymddygiad Estyn i arolygwyr, fel a amlinellwyd yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin a'u hehangu ym mhob un o'r canllawiau arolygu.

- Polisi Estyn ar recriwtio diogel ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithio i Estyn

- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006: Gweithgareddau a Reolir Cymru

- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95: Protecting children from abuse – the role of the education service (Saesneg yn unig)

- Diogelu Plant mewn Addysg: rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002, Cylchlythyr 005/2008, yn enwedig tudalennau 101-104 ar gyfer canllawiau perthnasol, cyhoeddiadau a rheoliadau eraill.

- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 34/02 Swyddog Diogelu: atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaeth addysg.

- Diogelu plant y mae eu salwch wedi'i dyfeisio neu ei achosi (2008).

- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 02/03 Swyddfa Cofnodion Troseddol: ffeithiau sylfaenol i wirfoddolwyr ysgol.

- Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill: Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 009/2014.

- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru (https://www.diogelu.cymru)

9 Atodiad 3 – System Diogelu, Lles a Chwnsela

*Rhaid i aelod o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth gytuno i ffonio 999

System for Safeguarding, Wellbeing & Counselling	System Diogelu, Lles a Chwnsela
A 'MyConcern' Referral / or emergency communication is received	Mae Atgyfeiriad 'MyConcern'/neu ohebiaeth frys yn cael ei derbyn
A member of the wellbeing team TRIAGES the concern. It is allocated to the appropriate team member / service based on: • Serious risk of harm /abuse – Safeguarding assessment by Safeguarding Manager • Severe Mental Health Crisis – Referral to GP or A&E / external mental health services. • Moderate Mental Health Crisis – Counselling team immediate referral. • Low level to Moderate Mental Health / Wellbeing – Wellbeing Officers for support & monitoring. • Very Low level Wellbeing needs – Pastoral tutor for monitoring.	Mae aelod o'r tîm lles yn ASESU'r pryder. Caiff ei dyrannu i aelod priodol o'r tîm/gwasanaeth yn seiliedig ar: • Risg ddifrifol o niwed/cam-drin – Asesiad diogelu gan y Rheolwr Diogelu • Argyfwng Iechyd Meddwl Difrifol – Atgyfeiriad at Feddyg Teulu neu Uned Achosion Brys/gwasanaethau iechyd meddwl allanol. • Argyfwng Iechyd Meddwl Cymedrol – Atgyfeiriad brys at y tîm cwnsela. • Iechyd Meddwl / Lles Lefel Isel i Gymedrol – Swyddogion Lles ar gyfer cymorth a monitro. Anghenion Lles lefel Isel Iawn – Tiwtor bugeiliol ar gyfer monitro.
Safeguarding The Safeguarding Officer assesses risk and makes immediate intervention*	Diogelu Mae'r Swyddog Diogelu yn asesu'r risg ac yn ymyrryd ar unwaith*
Counselling An assessment is made and six sessions allocated.	Cwnsela Caiff asesiad ei gwblhau a dyrennir chwe sesiwn.
Wellbeing The Officer makes an initial assessment and creates an intervention plan	Lles Mae'r Swyddog yn cynnal asesiad cychwynnol ac yn creu cynllun ymyrryd
To operate efficiently as a team: • The Safeguarding, Wellbeing & Counselling Team will share their diaries so the person undertaking the triaging is able to see who is available. • All student appointments / meetings is available to members of the team. • MyConcern is the system to record the concern chronology, for plan drawn up & actions taken by all members of the team.	I weithredu'n effeithiol fel tîm: • Bydd y Tîm Diogelu, Lles a Chwnsela yn rhannu eu dyddiaduron fel y gall yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad cychwynnol weld pwy sydd ar gael. • Mae holl apwyntiadau/cyfarfodydd y myfyriwr ar gael i aelodau o'r tîm. MyConcern yw'r system i gofnodi'r pryder mewn ffordd gronolegol, llunio cynllun a chymryd camau gweithredu gan holl aelodau'r tîm.
Meeting Structure Weekly safeguarding meeting with minuted discussion and actions set on MyConcern Monthly case discussions DSP, Wellbeing, Counselling, pastoral lead to attend – updates on MyConcern	Strwythur Cyfarfod Cyfarfod diogelu wythnosol gyda thrafodaeth â chofnodion a chamau gweithredu'n seiliedig ar MyConcern Trafodaethau achos misol gan y PDD, Lles, Cwnsela, arweinydd bugeiliol – diweddariadau ar MyConcern
Outcome of Concerns When it is agreed that the case / investigation is complete, the MyConcern case is closed.	Canlyniad y Pryder Pan fydd cytundeb bod yr achos/ymchwiliad wedi'i gwblhau, caiff yr achos ar MyConcern ei gau.

Pwyntiau Ychwanegol

Ar gyfer MyConcern/Atgyfeiriadau Brys

1. Mae'r Swyddog Diogelu a Lles yn asesu'r pryder. Y nod yw asesu o fewn 30 munud o dderbyn yr hysbysiad neu alwad MyConcern.

2. Ar gyfer atgyfeiriad categorïau pryderon amrywiol:

    - Risg ddifrifol o niwed/cam-drin – Asesiad diogelu gan y Swyddog Diogelu

    - Argyfwng Iechyd Meddwl Difrifol – Atgyfeiriad gan aelod o'r tîm at wasanaethau Meddyg Teulu neu Uned Achosion Brys/gwasanaethau iechyd meddwl allanol.

    - Argyfwng Iechyd Meddwl Cymedrol – Atgyfeiriad brys at y tîm cwnsela a dyrannu 6 sesiwn. Nodiadau'n cael eu hychwanegu at MyConcern.

    - Iechyd Meddwl / Lles Lefel Isel i Gymedrol – Swyddogion Lles ar gyfer cymorth a monitro. Cynllun gweithredu ymyrryd lles yn cael ei lunio yn seiliedig ar nodi a mynd i'r afael â phroblemau'r dysgwr. Dyddiad diwedd diffiniedig i'r cynllun gweithredu. Yr holl nodiadau'n cael eu hychwanegu at MyConcern.

    - Anghenion Lles lefel Isel Iawn – monitro gan diwtor bugeiliol.

Ar gyfer targedu dysgwyr sy'n agored i niwed

1. Mae gan y coleg gofrestr risg i ddysgwyr sydd wedi cael eu nodi fel dysgwr ag angen lles/diogelu. Mae hyn ar y safle SharePoint Lles/Diogelu (safle caeedig). Mae'r dysgwyr hyn yn cael eu nodi ym mis Medi o wybodaeth bontio a dderbynnir gan yr ysgol flaenorol yn ogystal â gwybodaeth a dderbynnir ar gofrestru o'r myfyrwyr eu hunain. Mae hyn yn cynnwys y rhai lle mae'r canlynol yn berthnasol:

    - Mae ganddynt bryderon diogelu presennol
    - Maent yn blant sy'n derbyn gofal
    - Maent ar y Gofrestr Diogelu Plant
    - Mae ganddynt Gynllun Gofal a Chymorth
    - Maent yn gweithio gyda YOS

Bydd y tîm yn cysylltu â phob dysgwr ar y gofrestr risg cyn hanner tymor mis Hydref y flwyddyn academaidd maent yn dechrau yn y coleg. Bydd hyn drwy e-bost i'w gwahodd i ddod i gyfarfod byr gydag aelod o'r tîm lle caiff gwasanaethau a chymorth eu hesbonio iddynt.

Pwyntiau Cyffredinol Eraill

1. Mae'n hanfodol y caiff cofnodion eu rhoi ar MyConcern er mwyn i'r tîm weithredu a bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'r cofnodion sy'n cael eu cymryd mewn cyfarfod myfyrwyr neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt gan aelod o'r tîm MyConcern eu hychwanegu at ffeil MyConcern y myfyriwr o fewn 24 awr. Rhaid dinistrio unrhyw nodiadau papur yn y gwastraff cyfrinachol ar ôl gwneud y diweddariad electronig.

2. Mae cyfarfodydd â dysgwyr yn gyfyngedig i 45 munud y myfyriwr. Mae hyn yn gadael 15 munud i deipio unrhyw nodiadau angenrheidiol, sy'n cyfateb ag uchafswm o un awr fesul myfyriwr.

3. Mae angen i ni osgoi diwylliant lle mae myfyrwyr yn galw heibio i'r gwasanaeth. Gall dysgwyr gysylltu a gofyn am / trefnu apwyntiad. Caiff yr apwyntiad ei nodi ar galendr Outlook yr aelod o'r tîm.

4. Bydd holl aelodau o'r tîm yn rhannu eu dyddiaduron Outlook fel y gall yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad cychwynnol weld pwy sydd ar gael.

5. Mae diwrnod myfyrwyr y coleg rhwng 9.05am a 3.20pm a lle bo'n berthnasol, dylid sicrhau bod apwyntiadau myfyrwyr o fewn yr amseroedd hyn. Mae hyn yn galluogi amser gweinyddol yn y diwrnod coleg i staff pan na fydd y myfyrwyr ar y safle am o leiaf dwy awr y dydd.

10 Atodiad 4 –
Cysylltiadau allweddol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn y coleg

Person Diogelu Dynodedig:	**MIKE HORGAN**
E-bost	**feelsafe@stdavidscollege.ac.uk**
Rhif ffôn	**02920 431842**
Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig:	**JAMIE BEYNON**
E-bost	**feelsafe@stdavidscollege.ac.uk**
Rhif ffôn	**02920 431853**
Rheolwr Diogelu a Lles:	**SARAH-JANE BAILEY**
E-bost	**feelsafe@stdavidscollege.ac.uk**
Rhif ffôn	**02920 431856**
Swyddog Diogelu a Lles:	**CONNOR LANE**
E-bost	**feelsafe@stdavidscollege.ac.uk**
Rhif ffôn	**02920 431856**
Llywodraethwr Cyswllt Diogelu:	**Y Parchedig Dad Nicholas Williams**
E-bost	**Nicholas.Williams@rcadc.org**
Cydlynydd Diogelu Esgobaethol	**Mr Christopher Mullane**
E-bost	**christopher.mullane@rcadc.org**
Rhif ffôn	**02920365961**
Diogelu Gwasanaethau Cymdeithasol Caerdydd	
Rhif ffôn ar gyfer pryderon brys ac uniongyrchol am blentyn sy'n destun risg:	**029 2053 6490**
Rhif ffôn ar gyfer oedolion sy'n destun risg:	**029 2233 0888**
Cynrychiolwyr Addysg yn MASH:	**029 2033 8438**
Rhif ffôn ar gyfer atgyfeiriadau brys y tu allan i oriau swyddfa:	**029 2078 8570**
YR HEDDLU:	**101 (neu 999 mewn argyfwng)**
Tîm Diogelu Addysg:	**educationsafeguarding@cardiff.gov.uk**